

Eich cyf / Your ref: Gofynner am / Please ask for: **Mrs Sharon James**

Fy nghyf / My ref: Llinell Uniongyrchol / Direct Line: **01267 246476**

Dyddiad / Date: **12/05/21** E-bost / E-mail: [SLJames@sirgar.gov.uk](mailto:SLJames@sirgar.gov.uk)  
[SLJames@carmarthenshire.gov.uk](mailto:SLJames@carmarthenshire.gov.uk)

Annwyl Ymgynghorai,

**Hysbysiad ynghylch Penderfyniad y Cyngor Sir –**  
**Cynnig i symud Ysgol Heol Goffa i safle newydd a chynyddu**  
**nifer y lleoedd o 75 i 120**

Ar 12 Mai 2021, cafodd y cynnig canlynol ei gymeradwyo gan Gyngor Sir Caerfyrddin:

O 1 Medi 2023, bod Ysgol Heol Goffa yn cynyddu nifer y lleoedd o 75 i 120 a'i bod yn symud i safle ysgol newydd.

**Gwrthwynebiadau i'r cynnig** - ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau.

Ystyriwyd y cynnig yn unol â gofynion Côd Trefniadaeth Ysgolion 2018 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a nodwyd nad oedd dim gwrthwynebiad wedi dod i law ynghylch y cynnig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol.

Wrth ddod i benderfyniad ar y cynnig, ystyriodd y Cyngor Sir y ffactorau canlynol fel y'u hamlinellwyd yn nogfen Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 fel a ganlyn:

**Ansawdd a safonau mewn addysg**

Barn yr Awdurdod yw bydd y cynnig hwn yn cynnal a/neu'n gwella'r safonau addysg presennol, fel ag ardystiwyd gan Estyn yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol.

**Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion**

Wrth gymeradwyo'r cynnig hwn, mae'r Cyngor Sir wedi ystyried a oes lleoedd digonol ar gael a'r galw tebygol am leoedd yn y dyfodol, yn ogystal â'r galw am ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y sir.

Dros y pum mlynedd diwethaf mae'r galw am leoedd wedi cynyddu. Mae 75 o leoedd presennol yn yr ysgol gyda 101 o ddisgyblion ar y gofrestr ym mis Ionawr 2020, sydd wedi rhoi pwysau sylweddol ar yr Awdurdod Lleol i ddod o hyd i leoliadau i ddisgyblion.

O ganlyniad, mae'r Awdurdod Lleol wedi datblygu cynllun i gynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Heol Goffa i 120 o leoedd i ddisgyblion 3-19 oed sydd ag anawsterau dysgu difrifol neu anawsterau dysgu dwys a lluosog drwy ddarparu ysgol newydd gyda chyfleusterau sy'n addas i'r 21<sup>ain</sup> ganrif ar safle newydd.

**Gareth Morgans, BAdd/BEed; MGw/MSc**

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,  
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP

Direction of Education & Children's Services,  
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP



BUDDSODDWYR | INVESTORS  
MEWN POBL | IN PEOPLE

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg

You are welcome to contact me in Welsh or English

## **Adnoddau addysg**

Wrth ddod i'r penderfyniad hwn, cafodd nifer o faterion eu hystyried, yn enwedig y galw cynyddol am leoedd i ddisgyblion yn Ysgol Heol Goffa.

## **Cyfeirio Penderfyniadau'r Awdurdod Lleol at Weinidogion Cymru**

Os oes unrhyw un o'r cyrff canlynol yn credu y gwnaethpwyd penderfyniad anghywir gan yr Awdurdod Lleol, yna o dan adran 54 o Ddeddf 2013 gallant o fewn 28 niwrnod gyfeirio'r cynnig at Weinidogion Cymru i'w ystyried:-

- Awdurdod lleol arall y mae'r cynigion yn effeithio arno;
- Y corff crefyddol priodol;
- Corff Llywodraethu ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig;
- Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig;
- Sefydliad addysg bellach y mae'r cynigion yn effeithio arno.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Sharon James o'r adran hon.

Yn gywir,



Gareth Morgans

**Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant**